Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives.
Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

# Y Gweithlu Nyrsio Yng Nghymru 2020



# Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

Nod yr adroddiad hwn, a gynhyrchir yn flynyddol gan RCN Cymru, yw rhoi trosolwg ystadegol o gryfderau a gwendidau'r gweithlu nyrsio yng Nghymru. Daw'r prif ffynonellau gwybodaeth am y gweithlu nyrsio yng Nghymru o Ystadegau Cymru/Llywodraeth Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Nodir y ffynonellau hyn drwy'r briff hwn.

Cafodd ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar staff nyrsio a gyflogir gan y GIG eu cyhoeddi ym mis Awst 2020 ac maent o 31 Mawrth 2020[1]. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd ffigurau nyrsio yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac roeddent yn cyfeirio at ddata o 30 Medi y flwyddyn honno. Caiff y ffigurau eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf ac fel arfer fe'u dangosir fel ffigurau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE).

Cyhoeddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol rifyn diweddaraf yr Arolwg Cyflogaeth chwe-misol yn 2019. Tynnwyd yr wybodaeth yn yr astudiaeth DU gyfan hon o arolwg cynhwysfawr o'n haelodaeth nyrsio, 965 ohonynt yn ymatebwyr o Gymru.

Cysylltwch â Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau a godir yn y briff hwn.



Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

# Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

## 1

### Mae angen rhagor o nyrsys cofrestredig ar Gymru i ddarparu gofal.

**Mae hyn yn gofyn am gynnydd yn nifer y myfyrwyr a mesurau i fynd i'r afael â chadw staff. Gellir gweld tystiolaeth o'r prinder nyrsys yng nghyfradd swyddi nyrsio gwag y GIG, y gyfradd uwch o wariant ar nyrsys asiantaeth a'r prinder dybryd o nyrsys cofrestredig yn y sector annibynnol.**

## 2

### Dylai Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru lansio ymgyrch recriwtio genedlaethol ar gyfer nyrsys mewn cartrefi gofal.

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o'r angen am nyrsio yn y sector hwn.**

## 3

### Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

**Dylid ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio Cymru i wardiau cleifion mewnol i blant a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl a nyrsio cymunedol er mwyn diogelu cleifion.**

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

# Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

## 4

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cyhoeddir data yn flynyddol ar gyfraddau swyddi gwag y gweithlu yn y GIG.**

Mae cyfradd swyddi gwag nyrsys yn ddangosydd allweddol o'r pwysau sydd ar fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau a disgyblaethau penodol. Mae'n bwysig cyhoeddi'r wybodaeth hon a hynny mewn modd sy'n addas i ddefnyddwyr.

## 5

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod myfyrwyr nyrsio yn cael cymorth i astudio a dylent hwyluso'r gallu i gael gradd nyrsio gyda chynllun prentisiaeth cenedlaethol.**

Dylid cael strategaeth y tu ôl i'r broses gomisiynu, sy'n edrych ar anghenion nyrsio Cymru yn y dyfodol a holl gyfnod gyrfa nyrs gofrestredig yn hytrach na chymryd golwg tymor byr ar nifer blynyddol y myfyrwyr nyrsio.

## 6

**Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y nyrsys sydd naill ai â'r Cymhwyster Ymarferwyr Arbenigol (SPQ) mewn nyrsio ardal neu'r radd feistr mewn nyrsio cymunedol.**

Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cadw gwybodaeth am weithgareddau a chanlyniadau gofal nyrsio cymunedol y GIG yn genedlaethol. Dylai Ystadegau Cymru gyhoeddi'r data cywir ynghylch nifer y nyrsys ardal sydd â'r radd berthnasol

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

7

## Dylai Llywodraeth Cymru/ Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gynllunio'n genedlaethol er mwyn cynyddu nifer y nyrsys arbenigol a'r nyrsys ymgynghorol.

**Mae angen cynyddu nifer y nyrsys atal a rheoli heintiau.**



Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion** **3**

**Adran 1 - Faint o nyrsys sy'n cael eu cyflogi gan y GIG?** **8**

**Adran 2 - Faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cael eu cyflogi yn y sector annibynnol?** **10**

Nyrsio Rhyngwladol a Mudo 12

**Adran 3 - A oes digon o nyrsys a staff nyrsio i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion?** **14**

Gweithio goramser 14

Gwariant ar nyrsys asiantaeth 15

Datblygiad proffesiynol parhaus 17

Swyddi gwag nyrsys Cofrestredig 18

**Adran 4 - Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016** **20**

Pam mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn bwysig 20

Sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion ym mhobman 20

Effaith COVID-19 22

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales


**Adran 5 - Myfyrwyr nyrsio a dyfodol gofal iechyd** **23**

Cefnogi myfyrwyr nyrsio 25

Prentisiaethau nyrsio 27

Addysg drwy gyfrwng y gymraeg 27

Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru 28

**Adran 6 - Nyrsio cymunedol a'r angen am nyrs ardal** **30**

**Adran 7 - Nyrsys arbenigol a nyrsys ymgynghorol** **35**

Atal a rheoli heintiau 39



Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.


1

# Faint o nyrsys sy'n cael eu cyflogi gan y GIG?

Mae Ystadegau Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth bob chwarter am nyrsys a staff nyrsio a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG Cymru ers mis Rhagfyr 2018. Cyn mis Rhagfyr 2018, arferai gwybodaeth gael ei chasglu a'i chyhoeddi yn flynyddol.

Noder bod "nyrsio" fel term yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae nifer y nyrsys cofrestredig yn gategori gwahanol.

**Ff.1 Niferoedd Nyrsio y GIG** (Ystadegau Cymru)




Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Mae'r ffigur hwn yn dangos bod nifer cyffredinol y nyrsys a gyflogir gan y GIG Cymru yn sefydlog ar y cyfan ers 2010, a bu cynnydd bach yn nifer y cyflogeion cymorth gofal iechyd ers 2015.

Nid yw hyn yn adlewyrchu anghenion y claf na datblygiadau'r gwasanaeth. Ceir llwyth gwaith nyrsio cynyddol wrth ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio sydd â dibyniaeth a chydafiachedd cynyddol. Mae nifer y cleifion mewn ysbytai wedi cynyddu'n sydyn, yn ogystal â'r defnydd o welyau. Mae angen cynnydd sylweddol mewn nyrsio er mwyn sicrhau bod gofal cleifion o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddarparu. O'i roi'n syml iawn, mae angen rhagor o staff nyrsio sydd â lefel uwch o wybodaeth a sgiliau i ofalu am rywun sydd wedi torri clun os yw'r unigolyn hefyd yn fregus yn gorfforol, yn byw gyda dementia, diabetes, cyflyrau ar y galon a salwch anadlol. Mae hyn yn fwy fyth os yw'r unigolyn yn cael gofal gartref, ar ei ben ei hun neu mewn tŷ o ansawdd gwael.

Er mwyn deall faint o nyrsys a staff nyrsio sydd eu hangen yn y GIG, dylid ystyried dangosyddion eraill o anghenion y gweithlu a chleifion megis cyfraddau swyddi gwag, gwariant ar asiantaethau, a phwysau yn sgil llwyth gwaith. Archwilir y rhain yn adran 3.

AaGIC, ynghyd â Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, wedi cynhyrchu strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol (mis Rhagfyr 2019)[2]. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth hon wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'r ffurf derfynol wedi ei chyhoeddi. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf creu AaGIC, fod Cymru yn dal i fod heb strategaeth weithlu gydlynol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

## FFAITH ALLWEDDOL

Ceir llwyth gwaith nyrsio cynyddol wrth ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio sydd â dibyniaeth a chydafiachedd cynyddol. Mae angen cynnydd sylweddol mewn nyrsio er mwyn sicrhau bod gofal o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddarparu i gleifion.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

2

# Faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cael eu cyflogi yn y sector annibynnol?

**FFAITH ALLWEDDOL**

Yn 2018, dim ond 1,545 o nyrsys cofrestredig a gyflogwyd gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd oedd yn y gweithlu cartrefi gofal yng Nghymru: sef dim ond 3% o'r holl staff a gyflogwyd gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yng Nghymru. Mae'r ffigur argyfyngus o isel hwn yn dangos pa mor anodd yw darparu gofal nyrsio o safon mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Mae'r sector annibynnol yn cynnwys sefydliadau preifat, gwirfoddol, elusennol a nid-er-elw. Mae cartrefi gofal, hosbisau, elusennau ac asiantaethau nyrsio yn enghreifftiau o gyflogwyr nyrsio yn y sector hwn.

Gwyddom drwy ddarparwyr cartrefi gofal a'n haelodau fod prinder acíwt o nyrsys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal.

Nododd adroddiad gan Gofal Cymdeithasol Cymru bod 66% o'r gweithlu gofal a gomisiynir yn weithwyr gofal, yn swyddogion gofal ac yn gynorthwywyr gofal (y bydd llawer ohonynt yn darparu gofal nyrsio), ond dim ond 3% o'r holl staff a gyflogir gan ddarparwyr gofal a gomisiynir yng Nghymru sy'n nyrsys cofrestredig (ac eithrio rheolwyr). Mae'r data a gasglwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi mai dim ond 1,545 o Nyrsys Cofrestredig a gyflogwyd gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd oedd yn y gweithlu cartrefi gofal[3]. Mae angen i'r nifer hwn gynyddu'n sylweddol.

Os nad oes digon o nyrsys cofrestredig yn y gweithlu cartrefi gofal, yna bydd ansawdd y gofal nyrsio a ddarperir yn gostwng, gan arwain at iechyd gwael a disgwyliad oes llai i breswylwyr.

Bydd y baich ar y GIG yn cynyddu hefyd yn sgil cynnydd mewn achosion o oedi wrth ryddhau cleifion ac mewn derbyniadau dro ar ôl tro. Yn ogystal â hyn, mae angen gofal nyrsio ar rai unigolion mewn cartrefi gofal. Os oes angen gofal nyrsio arnynt, dylai'r gofal hwn gael ei oruchwylio gan nyrs gofrestredig a dylai'r gofal hwn gael ei reoleiddio a'i arolygu'n rheolaidd.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Mae presenoldeb nyrs gofrestredig mewn cartrefi gofal ar gyfer preswylwyr a chanddynt anghenion nyrsio yn hanfodol ar gyfer monitro ac asesu iechyd a lles preswylwyr yn barhaus. Yn ymarferwyr annibynnol, defnyddir eu sgiliau clinigol i nodi a rhagweld problemau, i weithredu pan fo cyflwr unigolyn yn dirywio ac i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Mae nyrsys cofrestredig yn allweddol wrth reoli salwch acíwt, wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli cyflyrau hirdymor, ac wrth ddarparu triniaethau cymhleth mewn sefyllfaoedd brys neu argyfyngus. Maent hefyd yn helpu i gefnogi proses bontio ddi-dor o'r ysbyty yn ôl i'r cartref gofal.

Mae pwysigrwydd nyrsys cofrestredig mewn cartrefi gofal wedi dod hyd yn oed yn fwy amlwg yn ystod pandemig COVID-19, yn fwyaf amlwg oherwydd eu bod yn darparu cyngor a chymorth i staff cartrefi gofal, gan nodi symptomau cynnar COVID-19 mewn preswylwyr oedrannus a gan ofalu am gleifion mewn amgylchedd diogel.

Mae nyrsys cofrestredig yn hybu annibyniaeth preswylwyr drwy ofal rhagweithiol sy'n eu hadfer, yn hybu iechyd trigolion, yn darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes o safon uchel i unigolion ac yn chwarae rhan allweddol wrth eirioli ar ran preswylwyr a theuluoedd.

Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn agos yn golygu bod prinder nyrsys yn y sector cartrefi gofal a/neu gynllunio'r gweithlu yn wael yn risgiau sylweddol i'r GIG. Dylai Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd nodi cynlluniau eu gwasanaethau ac anghenion eu gweithlu, gan ystyried demograffeg eu poblogaeth. Fodd bynnag, mae trylwyredd ac ansawdd y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn amrywio'n fawr ar draws Byrddau Iechyd yn ogystal â'r gallu i asesu angen y gweithlu yn y sector annibynnol yn eu rhanbarth.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

**FFAITH ALLWEDDOL**

Mae presenoldeb nyrs gofrestredig mewn cartrefi gofal ar gyfer preswylwyr a chanddynt anghenion nyrsio yn hanfodol ar gyfer monitro ac asesu iechyd a lles preswylwyr yn barhaus, yn ogystal â nodi a rhagweld problemau ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Nid yw'r gyfres o adroddiadau gweithlu a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o dueddiadau. Mae'n nodi "*ni allwn ddarparu cymariaethau cadarn â blynyddoedd blaenorol[...]. O'r herwydd, nid yw'r graddau y mae'r gwahaniaethau hyn yn cynrychioli newid gwirioneddol yn hysbys*"[4]. Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i gymryd camau ar unwaith i wella'r data hyn am y gweithlu a chyhoeddi dadansoddiad cenedlaethol o'r anghenion nyrsio ar gyfer y sector hwn.

**Nyrsio rhyngwladol a mudo**

Ym mis Mai 2020, cymeradwyodd Bil Cydlynu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol y DU (Ymadael â'r UE) y camau cychwynnol yn Nhŷ'r Cyffredin. Bydd y Bil yn effeithio ar recriwtio a chadw'r gweithlu nyrsio rhyngwladol. Bydd y Bil yn cael effaith ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Gan fod Llywodraeth y DU yn ystyried y gweithlu gofal cymdeithasol yn weithwyr 'sgiliau isel', byddai'n anodd i weithiwr gofal rhyngwladol gael gwaith yn y DU gan ddefnyddio'r system sy'n seiliedig ar bwyntiau.

O dan y system sy'n seiliedig ar bwyntiau, y trothwy cyflog ar gyfer mewnfudwyr yw £25,600. Disgwylir hefyd y bydd y rhai sy'n dod i'r DU eisoes wedi cael cynnig swydd a'u bod nhw'n siarad Saesneg. Yn 2018, amcangyfrifwyd mai £16,900 oedd cyfartaledd enillion unigolyn a oedd yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru[5]. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn pryderu y bydd y Bil Mewnfudo yn cael effaith ddinistriol ar y prosesau o recriwtio ac o gadw'r gweithlu rhyngwladol ac mae wedi galw ar i alwedigaethau gwaith gofal gael eu hychwanegu at y rhestr o alwedigaethau lle ceir prinder.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Llofnododd RCN Cymru bapur safbwynt Llywodraeth Cymru ar fudo ac maent yn ei gefnogi. Mae'r papur yn nodi safbwynt unedig Cymru ar faterion allweddol mudo gan gynnwys y trothwy cyflog, gwahaniaethau demograffig a'r cyfnod pontio[6].

**ARGYMHELLIAD**

**Dylai Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru lansio ymgyrch recriwtio genedlaethol ar gyfer nyrsys mewn cartrefi gofal.**

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o'r angen am staff nyrsio yn y sector hwn.**

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.


3

# A oes digon o nyrsys a staff nyrsio i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion?

Bydd yr adran hon yn archwilio pedwar pwnc; goramser, gwariant ar asiantaethau, datblygiad proffesiynol parhaus a swyddi nyrsio gwag sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi ateb i'r cwestiwn "A oes digon o nyrsys a staff nyrsio i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion?"

**Gweithio goramser**

**Ff.2 Morâl nyrsio yng Nghymru**
(Arolwg Cyflogaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol 2019)




Mae'r ffigur dau yn rhoi darlun llwm o'r pwysau y mae nyrsys yn ei deimlo yn eu gwaith. Canfu'r data diweddaraf o arolwg cyflog ac amodau gwaith RCN a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 fod 58.4% o'r aelodau'n teimlo bod eu morâl wedi gwaethygu ers cyn pandemig COVID-19. Mae hyn yn cymharu â 55.6% yn y DU.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Yn ogystal â hynny, datgelodd arolwg 2020 fod 76.6% o'r aelodau o'r farn bod lefel eu straen wedi gwaethygu, a theimlodd 87.7% o'r aelodau fod lefel straen eu cydweithwyr wedi cynyddu.

Mae GIG Cymru yn parhau i ddangos dibyniaeth drom ar barodrwydd nyrsys i weithio oriau ychwanegol. Yn 2019, roedd 76% o nyrsys yn gweithio oriau ychwanegol o leiaf unwaith yr wythnos. O hyn, mae'r mwyafrif yn gweithio rhwng un a phedair awr yn ychwanegol fesul wythnos.

Yn fwy diweddar, nododd arolwg 2020 fod 30% o'r aelodau yn teimlo eu bod yn gweithio oriau hirach o gymharu â chyn pandemig COVID-19. Mae'r cynnydd mewn oriau hwy yn peri pryder o ystyried bod staff nyrsio eisoes yn gweithio sifftiau hir.

Cyflogir 22,850 o nyrsys FTE yn GIG Cymru. Gan ddefnyddio'r ffigur hwn (yn hytrach na ffigur cyfrif uwch yr aseiniad gan y gallai nyrs unigol ddal mwy nag un swydd), mae 76% yn cyfateb i 17,366 o nyrsys.

Pe byddai 17,366 o nyrsys yn gweithio dwy awr yn ychwanegol mewn un wythnos, byddai GIG Cymru yn cael 34,732 o oriau ychwanegol o waith yn yr wythnos honno. Mae hynny'n cyfateb i 926 o swyddi nyrsio llawn amser.

## Gwariant ar nyrsys asiantaeth

Bydd angen rhyw elfen o nyrsio dros dro yn y GIG bob amser er mwyn cwmpasu salwch tymor byr a mamolaeth. 'Nyrsio banc' yw'r term a roddir ar gyfer y system lle gall nyrsys a gyflogir gan y GIG gofrestru gyda'r 'banc' i fod ar gael i ddarparu cwmpas ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o nyrsys yn gweithio rhai oriau ar gyfer y 'banc', a bydd rhai yn gweithio ar gyfer y banc yn unig.

### FFAITH ALLWEDDOL

Bob wythnos, mae nyrsys yng Nghymru yn rhoi oriau ychwanegol i'r GIG sydd gyfwerth â 926 o nyrsys llawn amser. Mae'r ddibyniaeth hon ar ewyllys da nyrsys yn cyfrannu at straen, salwch, morâl isel a chyfraddau cadw isel.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

## FFAITH ALLWEDDOL

Gwariodd GIG Cymru £69.04 miliwn ar nyrsys asiantaeth yn 2019 – cynnydd o 9.94 miliwn ers 2018. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i leihau'r gwariant yma a chefnogi byrddau iechyd i gadw nyrsys cofrestredig.

Yn aml, mae nyrsys yn gadael y GIG i weithio i asiantaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rheoli eu horiau gwaith eu hunain a chael cyfradd uwch o dâl o'i chymharu â'r GIG. Yn aml, nyrsys yng Nghymru yw'r unig, neu'r prif enillydd cyflog yn y teulu. Yn aml, maent hefyd yn gofalu am blant ac aelodau hŷn o'r teulu. Mae rheolaeth dros oriau a weithir, felly, yn eithriadol o bwysig ac/neu'n angenrheidiol i'r grŵp hwn. Yn gynyddol, mae nyrsys yn dewis gweithio i asiantaethau yn unig. Os yw GIG Cymru am gadw ei staff nyrsio, mae angen iddynt foderneiddio eu gweithdrefnau Adnoddau Dynol er mwyn rhoi rhagor o reolaeth i nyrsys dros bryd y maent yn gweithio.


Yn lle cymell eu nyrsys i aros, mae GIG Cymru yn ceisio peidio â chefnogi nyrsys i adael gyda mesurau megis gwrthod cyflogi nyrsys asiantaeth sydd hefyd yn gweithio i'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth. Mae hyn yn creu sefyllfa ryfedd lle bo nyrsys asiantaeth yn teithio o Lundain neu Fanceinion i lenwi swyddi gwag yng Nghaerdydd neu Ysbyty Gwynedd. Mae GIG Cymru yn dangos dibyniaeth gynyddol beryglus ar nyrsys asiantaeth.

Mae cais Rhyddid Gwybodaeth (2019) yn tynnu sylw at y cynnydd mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth gan bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth leol. Mae cyfanswm y gwariant ar nyrsys asiantaeth wedi cynyddu i 69.04 miliwn yn 2019, i fyny o 59.1 miliwn yn 2018.

Mae nyrsio gydag asiantaeth(au) yn ddrud gan fod cost uwch er mwyn talu am elw i'r asiantaeth. Hefyd, nid yw'n ddelfrydol o ran gofalu am gleifion fel dewis parhaol na hirdymor gan y bydd nyrsys asiantaeth yn llai cyfarwydd â chynllun, polisïau a chyfarpar y ward ac yn llai abl i ddarparu gofal cyson.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

**Ff.3 Cyfanswm y Gwariant ar Nyrsys Asiantaeth fesul blwyddyn.** (Rhyddid Gwybodaeth)




## Datblygiad proffesiynol parhaus (CPP)

Mae datblygiad a dysgu proffesiynol yn ofynion sylfaenol ar bob cam o yrfa pob nyrs. Mae hynny'n ofynnol er mwyn cael eu hailddilysu'n llwyddiannus gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion ac effeithiolrwydd clinigol. Eto, oherwydd anhawster wrth ôl-lenwi nyrsys ar y tîm, mae rhai byrddau iechyd wedi atal nyrsys rhag cael gafael ar unrhyw CPP. Mae hyn yn golygu bod cael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf a dysgu sgiliau newydd yn dod yn rhywbeth y mae nyrsys yn gorfod ymdrechu i'w wneud gartref a thalu am hyn eu hunain. Mewn cyferbyniad, mae meddygon yn gallu cael gafael ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn rhan o'u contractau.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Mae hyfforddiant gorfodol yn cynnwys gwybodaeth am gyfarpar, triniaeth cynnal bywyd brys/adfywio cardio-pwlmonaidd, a rheoli heintiau. Datgelodd arolwg cyflogaeth RCN yn 2019 fod 85% o holl staff nyrsio'r DU gyfan wedi nodi eu bod wedi cwblhau eu holl hyfforddiant gorfodol, ond gostyngodd y ffigur hwn i 70% yng Nghymru. Ledled y DU, dywedodd 54% eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol diwethaf o fewn amser gwaith arferol, ond yng Nghymru, mae hyn yn gostwng i 29% ac mae'r ffigur hwn yn peri pryder. Os nad yw nyrsys hyd yn oed yn gallu cwblhau eu hyfforddiant gorfodol o fewn amser gwaith, nid oes digon o nyrsys yn cael eu cyflogi i ddarparu gofal diogel i gleifion.

**Swyddi nyrsys cofrestredig gwag**

Nid yw Llywodraeth Cymru a/neu GIG Cymru yn cyhoeddi ffigurau cenedlaethol ynghylch swyddi nyrsio gwag yn y GIG. Mae'r gyfradd swyddi nyrsio gwag yn ddangosydd hollbwysig o'r pwysau sy'n wynebu byrddau Iechyd neu ddisgyblaethau penodol. Fe'u cyhoeddir yng ngwledydd eraill y DU.

Amcangyfrifodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod o leiaf 1,612 o swyddi nyrsio gwag yn GIG Cymru[7].

Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ddata swyddi gwag a geir ym mhapurau'r Bwrdd Iechyd, Archwilio Cymru a phwyllgorau'r Senedd. Daw'r data o wahanol amseroedd yn ystod 2018 ac, yn bennaf, dim ond at swyddi gwag ar gyfer nyrsys Band 5 neu swyddi gwag ar wardiau a gwmpesir gan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 y maent yn cyfeirio.

Mae'r amcangyfrif yn dangos felly, pa mor rhyfeddol o anodd yw asesu'r gyfradd swyddi nyrsio gwag yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn ail, yr effaith sylweddol y mae swyddi gwag yn ei chael ar ofal cleifion a'r pwysau a brofir gan ein nyrsys yn y GIG. Cred Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod cyfradd y swyddi gwag yn cael ei thangynrychioli.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

**ARGYMHELLIAD**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfradd swyddi gwag flynyddol y gweithlu yn GIG Cymru.**

**ARGYMHELLIAD**

**Mae angen rhagor o nyrsys cofrestredig ar gymru i ddarparu gofal. mae hyn yn gofyn am gynnydd yn nifer y myfyrwyr a mesurau i fynd i'r afael â chadw staff. gellir gweld tystiolaeth o'r prinder nyrsys yng nghyfradd swyddi nyrsio gwag y GIG, y gyfradd uwch o wariant ar nyrsys asiantaeth a'r prinder dybryd o nyrsys cofrestredig yn y sector annibynnol.**

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

4

# Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

**Pam mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn bwysig:**

Yn 2007, arolygodd Yr Athro Ann Marie Rafferty bron i bedair mil o nyrsys ledled Lloegr a'r Alban gan edrych ar 118,752 o achosion o ofal cleifion mewn 30 o ymddiriedolaethau ysbytai yn Lloegr. Canfu fod **cyfradd marwolaethau cleifion 26% yn uwch mewn wardiau â chymarebau nyrsys i gleifion is.**

Mae canlyniadau staffio gwael sydd hefyd yn gysylltiedig â lefelau isel o ofal nyrsio yn cynnwys digwyddiadau andwyol ar ôl llawdriniaeth; cyfraddau uwch o ddamweiniau ac anafiadau i gleifion; cyfraddau croes-heintio uwch; a chyfraddau uwch o niwmonia.

Daeth y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn gyfraith ym mis Mawrth 2016 ac fe'i gweithredwyd yn llawn ym mis Ebrill 2018. Mae'r gyntaf (Adran 25A) yn ddyletswydd gyffredinol ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Lle maent yn darparu gwasanaethau nyrsio, mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu **"digon o nyrsys i ganiatáu i'r nyrsys gael amser i ofalu am gleifion mewn modd sensitif."**

Mae Adran 25B a 25C yn nodi, mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion, fod yn rhaid cyfrifo lefel "nyrsio digonol" yn unol â methodoleg benodol fel y'i nodir yn y canllawiau a rhoi gwybod am lefel staff nyrsio i'r cleifion. Mae gan algorithm y fethodoleg ragnodedig hon ffactorau i'w cynnwys ynddi megis cymysgedd o sgiliau nyrsio ac aciwtedd cleifion a dibyniaeth.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

**Sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion ym mhobman**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn Adran 25B o'r Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i gynnwys wardiau cleifion mewnol i blant.

Mae'r RCN yn credu bod angen ymestyn Adran 25B o'r Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i feysydd eraill megis wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl a nyrsio cymunedol fel mater o frys.

Er mwyn sicrhau bod lefelau nyrsio diogel i ddarparu gofal sensitif mewn modd amserol, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru ac AaGIC yn cydweithio i roi Lefelau Staff Nyrsio (Deddf) Cymru 2016 wrth wraidd y gwaith o gynllunio'r gweithlu. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn argymell ehangu niferoedd comisiynu cyn ac ôl-gofrestru i gynllunio ar gyfer ehangu Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nysrio (Cymru) 2016 a sicrhau bod gweithlu ar gael i ddarparu gofal tosturiol.

## ARGYMHELLIAD

**Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn adran 25b o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i gynnwys wardiau cleifion mewnol i blant a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl, cartrefi gofal a nyrsio cymunedol er mwyn diogelu bywydau cleifion.**

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

## Effaith COVID-19

Yn ystod pandemig COVID-19, bu angen i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru gymryd camau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen er mwyn sicrhau'r gallu i drin cleifion COVID-19.

Yn broffesiwn, mae nyrsio wedi ymateb â newidiadau sylweddol, gyda nyrsys yn dychwelyd at y proffesiwn mewn niferoedd nas clywyd amdanynt o'r blaen a myfyrwyr nyrsio yn gweithio oriau amser llawn yn y GIG. Ychydig dros wythnos ar ôl i Lywodraeth Cymru alw ar weithwyr y GIG a oedd wedi ymddeol i ddychwelyd i'r gweithle, roedd 416 o nyrsys a bydwragedd wedi cofrestru ar y gofrestr dros dro[8]. Yn ogystal â dangos eu parodrwydd i gynorthwyo â'r ymateb i COVID-19, mae'r gallu i recriwtio nyrsys sydd wedi ymddeol yn ôl i'r GIG hefyd yn dangos eu parodrwydd i gefnogi eu cydweithwyr, i ddychwelyd at swydd yr oeddent wedi ei gadael ac i ddarparu gofal i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae angen cymryd camau yn awr i ddeall beth a fyddai'n gwneud i'r nyrsys hyn aros ar ôl COVID-19. Drwy ddeall hyn, byddai'n gwella'n sylweddol gallu'r GIG i gadw nyrsys a gweithwyr gofal iechyd ar gyfer y dyfodol.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

5

# Myfyrwyr Nyrsio a Dyfodol Gofal Iechyd

Mae myfyrwyr nyrsio yn treulio tair blynedd (blynyddoedd sy'n 42 wythnos o waith ac nid y calendr academaidd traddodiadol yn unig) yn dilyn y cwrs gradd nyrsio (y meysydd ymarfer yw Oedolion, Plant, Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl) gan dreulio 50% o'u hamser ar leoliadau ymarferol yn y GIG yng Nghymru neu mewn lleoliadau eraill.


Canfu ymchwil yn 2014, a gynhaliwyd ar draws naw gwlad yn Ewrop, fod gweithlu nyrsio sydd wedi ei addysgu'n well yn lleihau marwolaethau diangen. Mae pob cynnydd o 10% yn nifer y nyrsys sy'n meddu ar radd Faglor mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% mewn marwolaethau cleifion[9].

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fuddsoddiad ychwanegol o £16.4 miliwn ar gyfer lleoedd i fyfyrwyr, gyda chynnydd o 14.5% mewn lleoedd hyfforddi ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth. Croesewir y cynnydd hwn, ac mae ei angen.

Gyda 1,400 o leoedd yn cael eu comisiynu ar gyfer nyrsio oedolion, mae'r niferoedd ar gyfer y maes ymarfer hwn lawer yn fwy na niferoedd y lleoedd nyrsio ar gyfer iechyd meddwl, anabledd dysgu a phlant. Mae lleoedd i nyrsys dan hyfforddiant ym maes nyrsio iechyd meddwl, anabledd dysgu a phlant wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth ers sawl blwyddyn.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

## Ff.4 Niferoedd y Myfyrwyr Nyrsio cyn cofrestru fesul maes ymarfer




| | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | **1100** | **1210** | **1216** | **1400** |
| **Plant** | **140** | **154** | **154** | **154** |
| **Anabledd Dysgu** | **70** | **77** | **77** | **77** |
| **Lechyd Meddwl** | **300** | **330** | **324** | **356** |

Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i gynyddu’r niferoedd a gomisiynir cyn cofrestru ar gyfer nyrsio anableddau dysgu, iechyd meddwl a phlant. Mae angen amlwg am gynnydd yn niferoedd nyrsys yn y tri maes ymarfer hyn.

- Ceir cyferbyniad llwyr yn y galw, o wasanaethau newyddenedigol i nyrsys plant ynghyd ag angen dybryd i gynyddu nifer y nyrsys plant mewn timau cymunedol.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

- Mae angen cynyddu niferoedd y myfyrwyr nyrsio Anableddau dysgu er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc a chanddynt anableddau dysgu yn y gymuned.

- Mae angen cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer myfyrwyr iechyd meddwl. Tynnwyd sylw at lefelau staffio gwael ac anallu i recriwtio staff nyrsio mewn adroddiad cenedlaethol diweddar sy'n edrych ar achosion o ofal gwael. Dim ond os yw'r gweithlu cymwysedig ar gael i wneud hynny y gellir darparu gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd diogel.

O ystyried y prinder nyrsio, mae'n hynod o bwysig bod pob maes ymarfer yn cael ei ehangu. Dylai AaGIC a Llywodraeth Cymru ehangu lleoedd nyrsio ar gyfer myfyrwyr iechyd meddwl, anabledd dysgu a phlant er mwyn paratoi i estyniad Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a sicrhau bod gweithlu ar gael i ofalu am anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.

**Cefnogi Myfyrwyr Nyrsio**

Oedran cyfartalog myfyriwr nyrsio yw 29, ac maent yn llawer mwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu. Canfu arolwg gan y RCN fod gan 31% ohonynt blant dibynnol, roedd 10% ohonynt yn rhieni sengl ac roedd 23% ohonynt yn gofalu am berthynas sy'n sâl, yn anabl neu'n oedrannus[10].

Mae Llywodraeth Cymru yn talu cost ffioedd dysgu i'r brifysgol. Os yw myfyrwyr yn ymrwymo i weithio i GIG Cymru am ddwy flynedd, maent yn cael grant heb brawf modd o £1,000 a gallant wneud cais i gael bwrsariaeth sy'n dibynnu ar brawf modd a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd. I'r gwrthwyneb, diddymodd Llywodraeth y DU y fwrsariaeth myfyrwyr nyrsio yn Lloegr ac fe ostyngodd nifer yr ymgeiswyr nyrsio yn Lloegr gan 30%[11]. Mae'r cyfraddau ar gyfer myfyrwyr sy'n gadael cyrsiau yn llawer uwch nag yng Nghymru hefyd.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Er hynny, nid yw Cymru'n elwa'n llawn ar y penderfyniad i gadw'r fwrsariaeth. Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r penderfyniad hwn am flwyddyn neu ddwy flynedd. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r bwrsari yn parhau i mewn i flwyddyn academaidd 2020/2021. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2019, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru rownd 'ymgysylltu' arall ar y system yn y dyfodol. Roedd yr ansicrwydd yn golygu bod darpar fyfyrwyr yng Nghymru wedi drysu a'u bod wedi digalonni.

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod trefniadau wedi eu gwneud i gadw pecyn bwrsariaeth y GIG ar gyfer dwy garfan ychwanegol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2021/2022 a 2022/2023. Roedd y cyhoeddiad, ynghyd â chyhoeddiad Mehefin 2019, yn rhoi sicrwydd a groesawyd am y tair blynedd academaidd nesaf.

Serch hynny, unwaith eto, roedd yr ansicrwydd yn rhemp gan fod Llywodraeth Cymru wedi dweud hefyd y byddai'n *'defnyddio'r amser hwn i gynnal ymarfer cynhwysfawr er mwyn sefydlu'r ffordd orau a mwyaf priodol o barhau i gefnogi'r rhai sy'n dewis astudio rhaglenni sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru'*[12].

Gallai'r ansicrwydd ar ôl 2023 lesteirio gwaith cynllunio ariannol prifysgolion oherwydd na allant fod yn sicr o'r system yn y dyfodol. Mae hyn yn cael effaith negyddol gan fod adrannau'n methu â buddsoddi mewn nyrsio ac mae'n bosibl y bydd prifysgolion yn ystyried gwneud toriadau i'r ddarpariaeth yn hytrach na buddsoddiadau.

Mae angen i Gymru gymryd camau i sicrhau bod ei chyflenwad ei hun o nyrsys yn cael ei ddiogelu a bod y gallu i ymuno â'r proffesiwn yn cael ei ehangu [13].

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

**Prentisiaethau nyrsio**

Mae Prentisiaethau Nyrsio yn galluogi'r myfyriwr i weithio ac ennill cyflog wrth astudio yn rhan-amser ar gyfer y radd nyrsio. Mae hwn yn ddewis deniadol i lawer. Fodd bynnag, nid oes llwybr prentisiaeth clir ar gyfer nyrsio yng Nghymru. Dim ond nifer cyfyngedig o leoedd a ariennir sydd ar gael ar gyfer y rhai a gyflogir eisoes gan GIG Cymru fel gweithwyr cymorth gofal iechyd gan GIG Cymru.

Mae'r prentisiaethau'n manteisio i'r eithaf ar botensial y gweithlu ac maent yn caniatáu i'r prentis ymgysylltu ag aelodau staff profiadol sy'n gallu trosglwyddo sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau.

Dylai Cymru archwilio ffyrdd o'i gwneud yn haws ymuno â'r proffesiwn nyrsio drwy ddull cenedlaethol o ymdrin â phrentisiaethau, gan gynnig mynediad uniongyrchol at y model hwn y gall unigolion wneud cais amdano, gan gynnwys trefniadau â chymorth mewn cartrefi gofal.

**Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

I ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol o safon yng Nghymru, mae arnom angen gweithlu dwyieithog. Mae'r iaith y darperir gofal ynddi, yn rhan annatod o'r profiad gofal (e.e. urddas, tosturi ac ati), o ansawdd y gofal clinigol ac o ganlyniadau iechyd y claf. Gellir gweld pwysigrwydd yr iaith y darperir gofal ynddi ar ganlyniadau iechyd mewn meysydd megis therapi lleferydd a chwnsela, ond mae iaith un mor bwysig pan fo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dibynnu ar leferydd gyda'r claf a'r teulu i wneud asesiad, i esbonio trefn triniaeth neu feddyginiaeth neu i geisio cael caniatâd i ymgymryd â chamau gweithredu.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Mae dros 25,000 o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd yng Nghymru yn aelodau o'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Mae traean o'r aelodau hyn yn gallu siarad Cymraeg. Er mwyn i'n haelodau deimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg yn broffesiynol a chefnogi eu cydweithwyr i wneud hynny, mae'n rhaid cynyddu yr addysg nyrsio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r adnoddau addysgiadol sydd ar gael yn y Gymraeg. Byddai hyn yn gwella rhuglder ac yn cynyddu hyder proffesiynol, gan roi budd i'r gweithlu a'r cleifion.

Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, dylai Cynllun Tymor Canolig Integredig y GIG fod yn nodi eisoes yr anghenion am sgiliau Iaith Gymraeg yn eu gweithlu. Yna, dylid adlewyrchu'r angen hwn yn y broses o gomisiynu addysg. Dylid anelu at gynyddu cyfleoedd i astudio naill ai rhan o'r cwrs gradd neu'r cwrs gradd cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylid darparu cymorth hefyd i ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig darpariaethau Cymraeg. Byddai hyn yn sicrhau cynaliadwyedd proffesiynol parhaus y Gymraeg mewn addysg uwch nyrsio

**Cynllun Nyrsio Cadetiaid Tywysog Cymru**

Nod cynllun nyrsio cadetiaid Tywysog Cymru y Coleg Nyrsio Brenhinol, a ddatblygwyd yn 2017, yw paratoi cadetiaid am oes, drwy roi iddynt y sgiliau hanfodol, yr offer a'r uchelgais i lwyddo. Nod ychwanegol y cynllun yw paratoi cadét ar gyfer gyrfa bosibl mewn nyrsio a gofal iechyd.

Mae'r rhaglen 2½, a hyrwyddir gan Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, yn cyfuno 105 awr o ddysgu dan arweiniad, gan gynnwys modiwlau dysgu a lleoliad arsylwi clinigol yn eu rhanbarth gofal iechyd lleol.

Mae'r cynllun cadetiaid yn cael ei dreialu yng Nghymru ar y cyd â Llu Cadetiaid y Fyddin yng Nghymru.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Ar ôl i gadét lwyddo yn y cynllun, mae Prifysgolion Cymru wedi ymrwymo i gynnig cyfweliad sicr i gadetiaid llwyddiannus sy'n dymuno astudio nyrsio, ac mae byrddau iechyd lleol yn cynnig cyfweliad sicr i gadetiaid sy'n dymuno gweithio fel gweithwyr gofal iechyd banc.

Mae rhaglen 2 flynedd a hanner yn ymfalchïo mewn creu rhagor o gyfleoedd i ymuno â'r byd nyrsio. Mae'r cynllun yn annog pobl ifanc 16-25 oed, demograffeg sy'n cael ei methu gan y cwrs gradd tair blynedd traddodiadol mewn prifysgolion yn aml, i dderbyn swyddogaethau yn y GIG ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae gan y cynllun y posibilrwydd o gynorthwyo'r gwaith o gadw gweithlu'r GIG yn fawr gan roi cyfle ystyrlon i'r genhedlaeth iau gyfrannu at y GIG a'r gymdeithas ehangach.

## ARGYMHELLIAD

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod myfyrwyr nyrsio yn cael cymorth a dylent hwyluso'r gallu i gael gradd nyrsio gyda chynllun prentisiaeth cenedlaethol. Dylid cael strategaeth y tu ôl i'r broses a gomisiynu, sy'n edrych ar anghenion nyrsio Cymru yn y dyfodol a holl gyfnod gyrfa nyrs gofrestredig yn hytrach na chymryd golwg tymor byr ar nifer blynyddol y myfyrwyr nyrsio.**

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

6

# Nyrsio Cymunedol a'r angen am y nyrs ardal

Mae'n well gan bobl dderbyn gofal gartref. Mae amgylchedd y cartref yn fwy cyfforddus yn aml ar gyfer adferiad iechyd. Mae'n caniatáu i bobl gadw rhagor o annibyniaeth hefyd. Pan ddarperir gofal rhagorol yn y cartref, mae hefyd yn aml o fath sy'n atal salwch neu ddamweiniau yn y dyfodol. Mae cyngor ynghylch maeth neu gymorth i osod cymhorthion syml megis matiau gwrthlithro yn ddwy enghraifft o hyn.

Mae nyrsio cymunedol yn gweithredu fel cyswllt gwerthfawr rhwng gwasanaethau acíwt a gofal sylfaenol, ac mae'n hybu byw'n annibynnol. Mae nyrsys yn y gymuned yn arbenigo mewn sawl maes, er enghraifft dementia, strôc, gofal lliniarol a chlefyd Parkinson, ac mae rhai ohonynt wedi ennill cymwysterau ychwanegol er mwyn bod yn gallu rhagnodi meddyginiaethau sy'n sicrhau bod pobl hŷn yn cael gwasanaeth nyrsio o safon. Mae nyrsys cymunedol yn cyfeirio pobl hŷn at sefydliadau priodol yn y trydydd sector hefyd, er mwyn cael cymorth i gyfeillio a chyngor.

Yn ystod y degawd diwethaf yng Nghymru, bu byrddau iechyd yn ad-drefnu gwasanaethau ysbytai acíwt, yn lleihau nifer y gwelyau, yn annog cleifion i aros am lai o amser ac yn galluogi triniaethau a gofal mwy cymhleth i gael eu darparu gartref. Mae'r

Coleg Nyrsio Brenhinol yn cefnogi'r polisi hwn, ond mae angen buddsoddi yn fwy yn y gweithlu nyrsio cymunedol er mwyn sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion. Bu cynnydd yn nifer y nyrsys cofrestredig a'r staff nyrsio sy'n gweithio yn y gymuned.

Hefyd, mae nifer yr ymwelwyr iechyd yng Nghymru wedi aros yn sefydlog mewn cyferbyniad llwyr â Lloegr lle mae'r niferoedd wedi gostwng yn sydyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn i'w groesawu.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

**O ystyried y newyddion cadarnhaol hyn, pam y mae'r RCN yn pryderu?**

cleifion y GIG yn y gymuned. Yn syml, nid yw nifer y bobl sy'n derbyn gofal, a'u hanghenion, yn hysbys ar lefel genedlaethol, felly mae'n anodd amcangyfrif y lefel nyrsio sydd ei hangen.

Gwyddom fod nifer cynyddol o bobl hŷn a grwpiau eraill sy'n agored i niwed y mae angen nyrsio gartref arnynt ynghyd â chynnydd yn nifer y bobl â chyflyrau hirdymor sydd angen gofal nyrsio cymhleth. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth genedlaethol am ganlyniadau'r cleifion.

Datblygiad diweddar i'w groesawu oedd cyhoeddiad "Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrsys Ardal" gan y Prif Swyddog Nyrsio. Mae'r egwyddorion hyn yn argymell y dylai pob tîm nyrsio cymunedol yng Nghymru gael ei arwain (a'i ddirprwyo) gan nyrs ardal neu nyrs sy'n meddu ar radd nyrsio cymunedol ôl-gofrestru.

Byddai'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn croesawu gwybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd ynghylch a yw'r safon hon wedi ei chyrraedd.


Yn ail, mae'r RCN yn pryderu'n fawr am y prinder cenedlaethol o nyrsys ardal a diffyg gweithredu Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn. Mae'r cymhwyster ymarferydd arbenigol nyrs ardal yn cydnabod lefel o wybodaeth ac arfer sy'n fedrus iawn mewn gofal sy'n gofyn am wybodaeth sy'n benodol iawn. Arbenigedd mewn nyrsio cymunedol cyffredinol ydyw. Y nyrsys hyn yw brig profiadol timau nyrsio cymunedol sy'n darparu goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glinigol.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

Mae’r graff (ffig. 5) isod yn dangos y gostyngiad sydyn yn nifer y Nyrsys Ardal yng Nghymru. Mae hyn yn frawychus a dylai beri pryder difrifol i Lywodraeth Cymru.

## Ff.5 **Nyrsys ardal** (Ystadegau Cymru)




| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Nyrsys Ardal | 844 | 774 | 745 | 647 | 574 | 461 | 669 | 705 | 666 | 667 | 774 |
| Nyrsys Ardal FTE | 750 | 693 | 666 | 584 | 516 | 412 | 581 | 610 | 581 | 591 | 680 |
| Lleoedd Modiwl Nyrsys Ardal | 40 | 40 | 50 | 100 | 172 | 163 | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 |
| Lleoedd Cwrs I Nyrsys Ardal | 30 | 26 | 20 | 31 | 24 | 41 | 41 | 80 | 80 | 80 | 80 |

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Pam mae RCN Cymru wedi defnyddio llinell ddotiog yn Ffig.5 i ddangos y cynnydd ymddangosiadol yn nifer y nyrsys ardal ar ôl 2016?

Yn syml, oherwydd nad yw'r wybodaeth hon yn ddibynadwy. Mae byrddau iechyd wedi rhoi gwybod i Ystadegau Cymru eu bod yn codio yr holl nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn y gymuned yn anghywir yn fwriadol fel "nyrsys ardal". Mae hyn yn wybodaeth ffug.

Yn niweddariad Ystadegau Blynyddol Cymru (Medi 2019), cofnodwyd bod gwelliannau yn 2018 i'r Cofnod Staff Electronig yn golygu ei bod yn bosibl i Ystadegau Cymru weld pa rai o'r 'nyrsys ardal' hynny sydd â'r cymhwyster perthnasol (SP:DN). Yn bwysig, cydnabuwyd yn niweddariad Blynyddol Ystadegau Cymru (2019) fod *'nifer o nyrsys wedi eu codio yn anghywir fel nyrsys ardal'*[14].

Er bod ganddynt y gallu i nodi nyrsys sydd â'r cymwysterau perthnasol a'u bod nhw'n cydnabod presenoldeb data anghywir, nid yw Ystadegau Cymru wedi rhyddhau'r data priodol yn gyhoeddus yn eu cyhoeddiadau data ym mis Rhagfyr 2019 na mis Mawrth 2020.

Mae RCN Cymru wedi bod yn feirniadol yn gyhoeddus ynghylch y nyrsys ardal sydd wedi eu codio yn anghywir ac yn gamarweiniol ers 2016. Mae'n amhosibl i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru gynllunio gofal cleifion yn y gymuned sy'n ddiogel ac yn effeithiol os caiff ffigurau cywir ynghylch y gweithlu nyrsio eu camgyfleu yn gyhoeddus yn fwriadol. Mae angen cyhoeddi data nyrsio cymunedol cywir ynghylch nifer y nyrsys cofrestredig, nifer y nyrsys sy'n meddu ar radd feistr mewn nyrsio cymunedol a'r rhai â'r cymhwyster nyrsio ardal perthnasol.

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

Mae nifer y lleoedd a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs nyrsio ardal rhan-amser wedi aros yn sefydlog ar 123 o leoedd ers 2016 er gwaethaf yr angen dybryd am gynnydd mewn nyrsys ardal.

**ARGYMHELLIAD**

**Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cadw gwybodaeth am weithgareddau a chanlyniadau gofal nyrsio cymunedol y GIG yn genedlaethol. Dylai Ystadegau Cymru gyhoeddi'r data cywir ynghylch nifer y nyrsys ardal sydd â'r radd berthnasol .**

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

7

# Nyrsys arbenigol a nyrsys ymgynghorol

Yn ogystal ag arbenigo mewn maes penodol, mae nyrsys arbenigol yn ymarferwyr lefel uwch. Maent yn darparu addysg a chymorth i gydweithwyr nyrsio a chydweithwyr gofal iechyd eraill.  Yn aml, mae nyrsys arbenigol yn darparu cymorth hanfodol i bobl sydd â chyflyrau cronig, gan eu helpu nhw i reoli eu cyflyrau a byw mor annibynnol â phosibl e.e. cyflyrau megis sglerosis ymledol, clefyd Parkinson neu gyflyrau ar y galon.

Yn aml, caiff swyddi nyrsio arbenigol eu cefnogi gan arian ysgogi neu eu cynnal yn llwyr gan y sector gwirfoddol.


Mae RCN Cymru yn pryderu nad yw nifer y nyrsys arbenigol yng Nghymru yn hysbys ar y lefel genedlaethol. Mae hyn yn golygu ei bod yn amhosibl dweud a oes angen rhagor ohonynt. Mae natur annibynadwy y cyllid yn dwysáu'r broblem hon. Efallai na fydd nyrs arbenigol gan ardaloedd daearyddol sydd â'r angen mwyaf o dan y dull gweithredu ar hap presennol. Credwn y gallai cynllunio cenedlaethol arwain at ddull mwy cynaliadwy a strategol (e.e. nyrsys arbenigol ar gyfer cyflyrau niwrolegol).

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives. Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

## Ff.6 **Nyrsys ymgynghorol**

(Ystadegau Cymru)





| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **FTE Nyrsys Ymgynghorol FTE** | **31** | **30** | **31** | **30** | **27** | **20** | **22** | **22** | **25** | **28** | **32** |

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Mae nyrs ymgynghorol yn swydd uchel iawn. Mae addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth glinigol yn rhan o'r swyddogaeth hon. Yn 2005, asesodd Proffesiynau Iechyd Cymru, y corff cenedlaethol presennol ar y pryd, yr angen am nyrsys ymgynghorol yng Nghymru ac fe gymeradwyodd 55 o swyddi nyrsys ymgynghorol (a 3 therapydd) ledled Cymru. Mae'n hynod siomedig felly mai dim ond 32 a geir ar hyn o bryd yn 2020, 15 mlynedd ar ôl i'r galw gael ei wneud yn glir.

## Ff.7 Nyrsys ymgynghorol Mawrth 2020

(Ystadegau Cymru)





Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

Mae Ffigur 8 yn amlygu nifer y nyrsys ymgynghorol fesul maes gwaith yn y saith bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Noder nad oes un nyrs ymgynghorol ar gyfer addysg, nyrsio mewn ysgolion na nyrsio newyddenedigol

## Ff.8 **Nyrsys ymgynghorol fesul maes gwaith, Mawrth 2020**

(Ystadegau Cymru)




Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

**Atal a rheoli heintiau**

Mae arferion atal a rheoli heintiau yn elfen hanfodol o bolisi a chanllawiau, iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cymhwyster ôl-raddedig mewn atal a rheoli heintiau wedi bod ar gael i nyrsys cofrestredig yng Nghymru ers 2008. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oes gan Lywodraeth Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru ddata sy'n ymwneud â faint o nyrsys cofrestredig sydd wedi cwblhau'r cwrs a faint o nyrsys atal a rheoli heintiau sydd yng Nghymru.

Mae angen casglu a chyhoeddi'r data hyn er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru/GIG Cymru ddeall a ydynt yn diwallu anghenion y cyhoedd yng Nghymru yn briodol.
Mae COVID-19 yn sicr wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen dybryd i gomisiynu rhagor o gyrsiau ym maes atal a rheoli heintiau. Mae angen datblygu nyrsys rhagor o nyrsys arbenigol yn y maes hwn i sicrhau bod arweinyddiaeth mewn ymchwil, ac addysg yn bresennol i gefnogi'r GIG, gofal iechyd cymunedol a sylfaenol a'r sector gofal cymdeithasol ehangach o gartrefi gofal a hosbisau a gofal cartref.

**ARGYMHELLIAD**

**Dylai Llywodraeth Cymru/AAGIC gynllunio'n genedlaethol er mwyn cynyddu nifer y nyrsys arbenigol a'r nyrsys ymgynghorol. Mae angen cynyddu nifer y nyrsys atal a rheoli heintiau.**

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk

1. Ystadegau Cymru, 2020, Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd, yn ôl gradd a maes gwaith, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year

2. AaGIC, 2019, Strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Strategaeth-Gweithlu-are-Gyfer-Iechyd-a-Gofal-Cymdeithasol-19.12.19.pdf.doc.pdf

3. Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018, Gofal Cymdeithasol Cymru - Proffil Gweithlu 2018 - Gwasanaethau darparwyr gofal a gomisiynwyd, https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/SCWWDP_commissioned-services_2018_cym_Final.pdf

4. Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018, Gofal Cymdeithasol Cymru - Proffil Gweithlu 2018 - Gwasanaethau darparwyr gofal a gomisiynwyd, https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/SCWWDP_commissioned-services_2018_cym_Final.pdf

5. ICF, 2018 Gwerth Economaidd y Sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Cymru, https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Gwerth-Economaidd-y-Sector-Gofal-Cymdeithasol-i-Oedolion_Cymru.pdf

6. Llywodraeth Cymru, 2019, Papur safbwynt Cymru ar fudo, https://llyw.cymru/papur-safbwynt-cymru-ar-fudo-html

7. Ffynhonnell y data: https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/pdf_95.pdf; https://www.audit.wales/sites/default/files/document_thumbnails/mg_resp_we.pdf; https://www.wao.gov.uk/node/5815 ; https://cwmtafmorgannwg.wales/how-we-work/quality-safety-risk-committee/; http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/99013; https://business.senedd.wales/documents/ s94044/Paper%201%20Betsi%20 Cadwaladr%20University%20Health%20 Board.pdf; http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/ documents/866/IMTP%202019%2020%20 -%2021%2022%20FINAL%20WG%20 submission%20pcworkforce%20April%20 2019.pdf

8. Llywodraeth Cymru, 2020, croesawu cannoedd yn ôl i weithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, https://llyw.cymru/croesawu-cannoedd-yn-ol-i-weithlu-iechyd-gofal-cymdeithasol-cymru

9. Coleg y Brenin Llundain, 2014, Degree educated nurses can reduce hospital deaths http://www.kcl.ac.uk/nursing/newsevents/news/2014/degree-educated-nurses-can-reduce-hospital-deaths.aspx

10. Y Coleg Nyrsio Brenhinol yn ymateb i ymgynghoriad Adran Iechyd y DU 'Changing how healthcare education is funded'

11. Y Coleg Nyrsio Brenhinol, Fund our Future, https://www.rcn.org.uk/get-involved/campaign-with-us/student-funding-fund-our-future

12. Llywodraeth Cymru, 2019, Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru, https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfodol-cynllun-bwrsariaeth-gig-cymru?_ga=2.61514412.1409829443.1602688409-828323926.1597756628

13. Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Dyfodol Addysg Nyrsio yng Nghymru (Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweedigaeth strategol ar gyfer ehangu mynediad at addysg nyrsio yng Nghymru yn deg ac yn gynaliadwy).

14. Llywodraeth Cymru, 2019, Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG, https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-30-medi-2019-239.pdf

Cyhoeddwyd ym mis Hyfred 2020. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus ar Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk.